# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**(O BELL TRWY TEAMS)**

<u>**Aelodau'n bresennol:**</u> <u>**Dydd Gwener, 2 Hydref 2020**</u>

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock a/ac M.Protheroe |
| **Swyddogion yn bresennol:** | N.Pearce, S.Ball, R.MacGregor, H.Bowen, T.Davies, Jenkins, D.Tomkins, S.Blewett, J.Woodman-Ralph a/ac T.Davies |

---

1. <u>**COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**</u>

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:

14 Ionawr 2020
4 Chwefror 2020
26 Mai 2020
16 Mehefin 2020
7 Gorffennaf 2020
28 Gorffennaf 2020
18 Awst 2020
8 Medi 2020

2. <u>**GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**</u>

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. **CAIS RHIF. P2020/0294 - GLANNAU'R HARBWR**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cais hwn (Adeiladu ffordd fynediad, gwaith lliniaru llifogydd, gwaith adfer tir halogedig, gwella gallu'r tir i gynnal llwythi a gwaith cysylltiedig i hwyluso'r gwaith i adfywio hen dir llwyd ar gyfer datblygiad masnachol yn y dyfodol ar Safle Cyflogaeth Strategol Glannau'r Harbwr, Ffordd Glannau'r Harbwr, Port Talbot) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0294, yn unol ag argymhellion y swyddogion.

4. **CAIS RHIF. P2020/0505 - 2 HEOL TAILLWYD, MYNACHLOG NEDD**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cais hwn (Estyniad cefn unllawr yn 2 Heol Taillwyd, Mynachlog Nedd SA10 7DT) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0505, yn unol ag argymhellion y swyddogion.

5. **TAFLEN DDIWYGIADAU**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygiadau mewn perthynas â'r rhifau cais: P2020/0493 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi caniatáu digon o amser i'r Aelodau ei darllen, mewn perthynas â'r eitemau cais ar yr agenda gyhoeddedig. Roedd y Cadeirydd wedi caniatáu iddi gael ei dosbarthu/hystyried ar frys yn y cyfarfod heddiw, am y rheswm a'r amgylchiadau penodol nad oedd yn dymuno gohirio unrhyw geisiadau ac er mwyn sicrhau bod Aelodau yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn dod i unrhyw benderfyniad yn y cyfarfod.

6. **P2018/0493 - CYRCHFAN ANTUR CWM AFAN - DIWEDDARIAD ER GWYBODAETH**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y cais hwn i'r Pwyllgor Cynllunio (Cais cynllunio amlinellol (gan gynnwys mynedfa) ar gyfer cyrchfan antur arfaethedig a oedd yn

cynnwys 600 o gabanau/fflatiau, gwesty 100 o welyau gyda sba cysylltiedig, man canolog sy'n cynnwys bwytai, gweithgareddau hamdden a siopau, gweithgareddau antur ac adeiladau cysylltiedig (gan gynnwys chwaraeon X, alpaidd/sgïo, gweithgareddau coedwig a Trax & Trail), bwytai ac adeiladau gweinyddu a chynnal a chadw cysylltiedig a pharcio ar gyfer tua 850 o geir, ynghyd â gweithrediadau tirlunio, draenio a pheirianneg cysylltiedig gan gynnwys ailbroffilio tir, trin ffiniau, adeileddau cynnal, goleuadau allanol a theledu cylch cyfyng, a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus. Gwybodaeth ychwanegol a diwygiedig a dderbyniwyd ar 25/01/2019 a 07/02/2019 o dan Reoliad 24 o ran bioamrywiaeth, effaith tirwedd ac effaith weledol, effaith economaidd gymdeithasol a chludiant ynghyd ag addasiadau i'r prif gynllun a'r cynllun paramedrau, ar dir ym Mhen y Bryn, Croeserw, y Cymer, Port Talbot) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn unol â phrotocol siarad cyhoeddus y Pwyllgor Cynllunio, rhoddodd cynrychiolwyr o Afan Valley Limited a Duff & Phelps Ltd (gweinyddwyr Afan Valley Ltd), eu sylwadau i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:** Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**